

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Adroddiad Blynyddol 2021 - 2022

Mawrth 2022

## Cyflwyniad

Mae'r ardal a wasanaethir gan Gyngor Cymuned Dolbenmaen yn cynnwys wardiau **Bryncir, Garndolbenmaen, Golan, Penmorfa, Prenteg a Phentrefelin**. Mae ardal Golan wedi ei gynnwys yn ymgais llwyddiannus Cyngor Gwynedd i sicrhau Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Poblogaeth o 1343 (Cyfrifiad 2011) sydd gan Dolbenmaen, ac mae'n ymestyn dros 8,609 hectar. Mae'r Cyngor Cymuned yn weithgar iawn ac yn gwneud gwaith amgylcheddol, yn cefnogi datblygiadau cymunedol ac yn cynorthwyo'r trigolion gyda materion personol a chymunedol. Rydym yn cynnig sylwadau ar bob cais cynllunio o fewn y gymuned.

Er mai dim ond Ysgol Garndolbenmaen sydd o fewn dalgylch y Cyngor, mae Ysgol Gynradd Llanybi, Ysgol y Gorlan Tremadog, Ysgol Trefarthyr Cricieth ac Ysgol Borth y Gest hefyd yn gwasanaethu plant yr ardal. Dwy ysgol uwchradd sydd yn gwasanaethu'r ardal sef Ysgol Eifionydd, Porthmadog ac Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes.

## Dyletswyddau

Mae Cyngorau Cymuned yn cynrychioli cymunedau unigol o fewn eu siroedd. Eu prif nod yw gwella amgylchedd ac ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yn eu hardaloedd.

Mae gan Gyngorau Cymuned bwerau cyfreithiol i ddarparu rhai gwasanaethau, ac maent yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Sir yn eu hardal.

Dyma ambell beth mae Cyngorau Cymuned yn gyfrifol amdanynt -

hysbysfyrddau ac arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd  
meinciau cyhoeddus a llochesi bysiau  
cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus  
gofalu am fynwentydd.

## Aelodaeth

Mae'r Cyngor Cymuned yn cynnwys 16 o Gyngorwyr sy'n cynrychioli'r wardiau.

Ward Bryncir - Y Cyngorwyr Edward Evans a Richard Parry.

Ward Prenteg - Y Cyngorwyr Richard Williams a Gwilym Evans.

Ward Garndolbenmaen - Y Cynghorwyr Anwen Humphreys, John Jones, Clifford Williams a Michael Jones.

Ward Golan - Y Cynghorwyr Amanda N Owen a Megan Lloyd Williams.

Ward Penmorfa - Y Cynghorwyr Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws ac Iddon Edwards.

Ward Pentrefelin - Y Cynghorwyr Huw Pritchard, Delyth Evans a Manon Jones Evans.

## Staff

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyflogi Clerc a Swyddog Ariannol sy'n gweithio'n rhan amser am 7 awr yr wythnos.

## Cyfarfodydd

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yng Nghanolfan Cymdeithasol Golan ar nos Iau gyntaf y mis am 7 o'r gloch . Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac eithrio pan fo materion sensitif yn cael eu trafod. Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn ystod mis Mai, ym mhob ward yn eu tro.

Yn ogystal â chyfarfodydd llawn y Cyngor Cymuned, mae is-bwyllgorau wedi ei sefydlu - Cyllid a Llywodraethant, Mynwentydd, Llwybrau Cyhoeddus, Eiddo. Bydd yr is-bwyllgorau yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn. Bydd unrhyw argymhellion a wneir gan yr aelodau yn cael eu cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn.

Yn ystod 2021 - 2022, mae'r cyfarfodydd wedi cael eu cynnal yn rhithiol.

## Safle We

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ynghyd a manylion gwariant y Cyngor Cymuned i'w gweld ar y safle we Dolbenmaen.Cymru.

## Atebolrwydd

Ar ôl cael eu hethol, mae'n rhaid i'r Cynghorwyr lofnodi datganiad derbyn swydd ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i lynu wrth y Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Cymuned. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cynghorwyr i weithredu'n briodol.

Disgwylir i'r Cyngorwyr ddatgan buddiant personol mewn unrhyw eitem ar yr Agenda os ydynt yn ymwybodol y gallent elwa mewn unrhyw fodd. Nid yw Cyngorwr (yr) sy'n datgan buddiant yn cymryd rhan yn y drafodaeth. Cedwir cofnod o'r buddiannau personol ac maent yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Cymuned yn flynyddol.

Mae'r rheolau ar gyfer holl gyfarfodydd y Cyngor Cymuned wedi'u cynnwys yn Rheolau Sefydlog y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau gweithdrefn a bennwyd yn y gyfraith. Maent yn helpu'r Cyngor Cymuned i weithredu'n ddidrafferth.

## Aelodaeth Allanol

Mae'r Cyngor Cymuned yn aelod o Unllais Cymru - y corff ar gyfer Cyngorau Cymuned a Threfi, Cymru. Mae Unllais Cymru yn darparu cyngor cyfreithiol, hyfforddiant a gwybodaeth ar ddatblygu polisïau.

Mae dau o'r Cyngorwyr yn mynychu cyfarfodydd Unllais ar gyfer ardal Arfon/Dwyfor.

Bydd un o'r Cyngorwyr, bob yn ail gyda chynrychiolydd o Gyngor Tref Porthmadog, yn gwasanaethu ar fwrdd Llywodraethol Ysgol y Gorlan.

Mae un o'r Cyngorwyr yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Fforwm Cymunedol Safle Treftadaeth y Byd.

## Cyllideb

### Cyllid

Bob blwyddyn, bydd y Cyngor yn ceisio rhagweld pa wasanaethau y bydd yn eu darparu, ac yn amcangyfrif faint o arian fydd ei angen arno i'w cyllido. Paratwir cyllideb fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ym mis Ionawr. 'Gosod praesept' yw'r term swyddogol am hyn, ac mae'r arian yn cael ei gasglu drwy'r Dreth Gyngor.

Mae'r gwariant yn cael ei fonitro yn fisol a'r Clerc yn adrodd ar y sefyllfa ariannol yn y cyfarfodydd llawn. Mae'r llyfrau ariannol yn cael ei gwirio yn chwarterol gan ddau Gynghorydd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y llyfrau ariannol yn cael ei archwilio gan archwilydd mewnol sef Cwmni A-Hughes Jones, Dyson ac yn cael archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Rhoddion Ariannol

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i Gyngorau Cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddynt bwerau penodol yn ei gylch, os yw'r Cyngor o'r farn y bydd y gwariant o fydd uniongyrchol i'r ardal. Rhoddir caniatâd hefyd i'r Cyngor wario at ddibenion elusennol.

Bob blwyddyn, rhoddir cyfle i fudiadau o fewn dalgyllch y Cyngor a thu hwnt, wneud cais am rodd ariannol. Gellir gwneud hyn trwy gysylltu â'r Clerc a rhoi manylion bras am waith y mudiad ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf. Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor wedi rhoi arian i'r canolfannau cymdeithasol yn yr ardal, i gylchoedd meithrin lleol ac i amrywiol elusennau, grwpiau a chymdeithasau yn yr ardal leol a thu hwnt. Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd cyfraniad i Bwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.

## Derbyniadau a Thaliadau 2021 - 2022

Derbyniadau	
Llog	£1.70
Praesept/Grantiau	£30,000.00
Mynwentydd	£2,908.75
Arall	£1,186.00
TAW	£2,716.16
Cyfanswm	£36,812.61
Taliadau	
Cyflog Clerc	£3,039.96
Costau Ffon	£300.00
Treth	£701.27
Mynwentydd	£8,946.16
Llwybrau	£1,560.00
Cae Chwarae Penmorfa	£15,900.00
Hyfforddiant	£0.00
Deunyddiau	£179.80
Hysbysebu	£199.00
Rhoddion Ariannol	£2,500.00
Yswiriant	£1,222.00

Rhent	£0.00
Aelodaeth	£224.00
Archwilio Cyfrifon	£300.00
Arall	£381.00
TAW	£4,673.63
Cyfanswm	£40,126.82

## Gweithgareddau'r Cyngor 2021 - 2022

### Mynwentydd

#### Mynwent Bethel

Ail-osodwyd y llechi ar do'r sied ac atgyweiriwyd caead twll archwilio.  
Gosodwyd mainc newydd yn y Fynwent

#### Mynwent Prenteg

Ail wynebwyd dan o'r lôn sy'n arwain at y Fynwent.

Torrir y gwair yn rheolaidd yn y Mynwentydd rhwng mis Mai a mis Medi.  
Derbyniwyd 2 gwyn am dyfiant y gwair yn un o'r Mynwentydd. Trefnwyd cyfarfod gyda'r contractwr a chytunodd i wneud newidiadau i'r dull o dorri'r gwair.

### Llwybrau Cyhoeddus

Torrir 21 o lwybrau yn yr ardal. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor Cymuned wedi trafod gydag Adran Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd yr angen i wneud gwelliannau i lwybrau Ty'n Ffridd, Garndolbenmaen a Hendre Gadredd, Pentrefelin.

### Cae Chwarae Penmorfa

Yn dilyn llwyddiant Pwyllgor y Cae Chwarae yn ystod 2020 -21 i gael grantiau i brynu offer chwarae a garddio, braf yw gweld y defnydd cynyddol sy'n cael ei wneud o'r cyfleusterau.

Gwaredwyd y coed onnen oedd wedi heintio.

## Materion Priffyrdd

Mae'r Cyngor Cymuned yn cysylltu gydag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i dynnu ei sylw at ffosydd, cwlferi a draeniau sydd angen eu glanhau.

Tynnir sylw'r Cynghorwyr ar faterion gall bery niwed i drigolion ac mae'r Cyngor Cymuned yn gweithredu ar y pryderon yma.

Yng Ngarndolbenmaen, mae problemau parcio yn y pentref. Er cael addewid gan Adran Draffig Cyngor Gwynedd ei bod am gynnal ymgynghoriad gyda'r trigolion, nid yw hyn wedi digwydd.

Ym Mhentrefelin, cafwyd achos o weithwyr ar eiddo yn parcio eu faniau a cheir ar y lôn fawr ac yn creu anawsterau i geir yn teithio o'r ddau gyfeiriad. Cysylltwyd gyda'r Heddlu a threfnwyd cyfarfod rhwng tri o'r Cynghorwyr Cymuned, y Cynghorydd Sir a pherchennog yr eiddo. Cafwyd addewid y byddai'r lleoliad yn glir ar ôl i'r gwaith atgyweirio gael ei gwblhau.

Yn dilyn pryderon un o drigolion Pentrefelin am y goryrru trwy'r pentref, gwnaethpwyd cais i Arrive Alive ddod i'r pentref.

O ganlyniad i nifer o ddamweiniau yn Glandwyfach, cysylltwyd gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd i ofyn iddynt wneud arwyddion y cyfarwyddiadau yn gliriach. Cyfeiriwyd y mater gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd at Lywodraeth Cymru.

## Ceisiadau Cynllunio/Datblygiadau yn yr Ardal

Derbyniwyd manylion 24 o geisiadau cynllunio ar gyfer y Ward -

Bryncir	4
Prenteg	3
Cwm Pennant	5
Garndolbenmaen	6
Pentrefelin	3
Golan a Cwmystradllyn	3
Penmorfa	0

Gwrthwynebwyd 2 o'r ceisiadau yn bennaf am fod pryderon am yr isadeiledd ar gyfer y datblygiadau.

## Gyfyng, Cwm Pennant

Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â sefydlu maes gwersylla o dan adain y Clwb Gwersylla Gwyrddach. Mae'r sefydliad wedi cael mandad i ardystio hawliau datblygu heb fynd drwy'r broses cynllunio. Cysylltwyd gyda Mabon ap Gwynfor AS i ofyn am ei gymorth i gau'r man gwan yn y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'n siomedig nad yw wedi ymateb i gais y Cyngor Cymuned.

Yn dilyn gwrthwynebiad i'r datblygiad gan drigolion Cwm Pennant a Pharc Cenedlaethol Eryri, penderfynodd y Clwb Gwersylla Gwyrddach i beidio rhoi tystysgrif i'r datblygiad.

## Gwarchod Enwau Lleodedd Cymru

Tynnwyd sylw'r Cyngor Cymuned at y ffaith fod enw'r eiddo Cae yr Eithin Tew, Golan wedi cael ei newid i Black Lake Cottage. Penderfynwyd y byddai tri o'r Cynghorwyr yn ymweld â pherchennog yr eiddo i ofyn iddo ail ystyried ei benderfyniad. Aflwyddiannus fu ymgais y Cynghorwyr i gyfarfod gyda'r perchennog.

## Materion Cyffredinol

Tynnwyd sylw Cyngor Gwynedd at -

Gyflwr modurdy preifat ym maes parcio, Prenteg. Cafodd yr adeilad ei archwilio gan swyddog o'r Adran Eiddo ac yn ei farn, nid oedd yn beryg.

Biniau a bocsys ail gylchu yn cael eu gadael ar y Green, Garndolbenmaen. Daethpwyd a'r mater i sylw Adran Gorfodaeth Stryd, Cyngor Gwynedd. O ganlyniad cysylltwyd gyda thrigolion y tai i ofyn iddynt gadw eu biniau yn eu gerddi.

## Ymgynghoriadau

Rhoddodd y Cyngor Cymuned sylwadau ar ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru -

- Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr;
- Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg;
- Amrywiadau lleol i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir ar gyfer ail gartrefi, llety gwyliau tymor byr ac eiddo preswyl ychwanegol arall o bosibl.



## Cyngor Gwynedd Ardal Ni 2035

Cafwyd cyfarfod gyda Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd ynglŷn â phrosiect Ardal Ni 2035. Cafwyd cyfle i adnabod a thrafod y materion sy'n bwysig i drigolion yr ardal a fydd angen sylw yn y 10 - 15 mlynedd nesaf.

### Eglwys Dolbenmaen

Tynnwyd sylw'r Cyngor Cymuned fod rhan o'r wal o amgylch y Fynwent wedi dymchwel. Bu'r Cyngor Cymuned mewn cysylltiad gyda'r Eglwys yng Nghymru i dynnu ei sylw at hyn. Cafwyd addewid y byddai'r wal yn cael ei atgyweirio ar ôl i'r arian yswiriant cael ei dalu.

### Llesiant Trigolion

#### Hwb Eifionydd

Ers mis Hydref, 2021 mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn cysylltu gyda Hwb Eifionydd ynglŷn â phryderon y trigolion lleol.

O ganlyniad i gyfuno Meddygfeydd Criccieth a Porthmadog mae -

- Diffyg cyfathrebu wedi golygu bod claf yn mynd i'r feddygfa anghywir ar gyfer apwyntiad;
- Trafferth cael apwyntiad gyda Meddyg;
- Gwasanaeth fferylliaeth yn dirwyn i ben.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi cysylltu gyda Mabon ap Gwynfor AS a GIG Cymru i godi pryderon y trigolion.

